COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANBEDR DYFFRYN CLWYD A GYNHALIWYD AR DDYDD LLUN 1af EBRILL 2019 YN YR YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y PENTREF, LLANBEDR DYFFRYN CLWYD AM 7.30 Y.H.

YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr Lyn Evans (Cadeirydd), Tim Baker, Dave Ritchie, Nick Smith, Jackie Bird, Gruff Jones, Cynghorydd Sir Ddinbych Huw Williams a'r Clerc.

1: YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Ken Tams, Rhian Jones a Bob Barton.

2: DATGANIADAU O DDIDDORDEB
Dim.

3: CADARNHAU COFNODION CYFARFOD BLAENOROL Y CYNGOR.
Derbyniodd yr aelodau gofnodion cyfarfod 4 Mawrth 2019 fel rhai cywir, a llofnodwyd hwy gan y Cadeirydd.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION.
Cyflwynodd y Cadeirydd ddiweddariad fel a ganlyn ar ofod dynodedig y Cynllun Datblygu Lleol:-
A: Cyflwyno cais cynllunio ar gyfer mynedfa oddi ar yr A494 - islaw'r fan lle mae'r nant yn mynd dan y ffordd.
B. Mae Alex Granville wedi rhoi sêl ei fendith ar gael llwybr drwy'r fynwent.
C. Rydym yn aros am gymeradwyaeth ysgrifenedig gan y Parch Chew.
D. Ni fydd y fynedfa i Lon Cae Glas yn newid (ond byddai'n fuddiol barbio'r gwrych gyferbyn â hi).
E. Taliad o £27,000 gan Williams Homes – beth fyddai'r broses o ryddhau hwn yn ôl i Gyngor Cymuned Llanbedr? Cytunodd y Cyng. Nick Smith i ymchwilio i hyn.

5. CYLCHGRAWN Y LINK.
A. Penderfynwyd postio'r cylchgrawn i bob tŷ yn Ward Llanbedr.
B. Bydd y Cadeirydd yn ymchwilio i'r gost a threfnu'r postio.
C. Cafodd y Pwyllgor ei siomi nad oedd sawl erthygl a gyfranwyd gan Aelodau'r Cyngor i'w gweld yn rhifyn y Gwanwyn.
D. Cynnwys cylchlythyr ar wahan gan y Cyngor Cymunedol yn rhifyn yr Haf.
E. Bydd y Cadeirydd yn darganfod cost argraffu'r cylchlythyr.
F. Rhaid cael copi rhifyn mis nesaf i mewn erbyn 19 Mai.

6. MONITRO CYFLYMDER.
A. Fe wnaeth y Cyng Gruff Jones drefnu cwrs ar gyfer gwirfoddolwyr gan Gyngor Sir Ddinbych ar 23 Mawrth. Mynychodd wyth o wirfoddolwyr y cwrs.
B. Rydym yn aros i Gyngor Sir Ddinbych roi caniatad swyddogol i ddynodi pedair safle yn y pentref ar gyfer monitro cyflymder.
C. Cytunwyd i brynu dau o ynnau monitro cyflymder fel yr argymhellwyd am gost o £79.00 yr un.
D. Rhaid cadw'r gynnau monitro cyflymder dan glo yn Neuadd y Pentref.
E. Bydd y Cyng Dave Ritchie yn dod o hyd i wyth allwedd ar gyfer y neuadd a chynhwysydd addas y gellir ei gloi.

7. GRŴP CYSWLLT CYMUNEDOL.
Mae'r Cyng Tim Baker wedi trefnu cyfarfod cychwynnol o holl Grwpiau Gwirfoddoli'r Pentref yn Neuadd y Pentref ar ddydd Llun 8 Ebrill. Bydd y Cyng Baker yn cadeirio'r cyfarfod.

8. ASTROTURF.
Oherwydd na fu cytundeb yn ystod y mis diwethaf rhwng Cyngor Sir Ddinbych a Chyfeillion Ysgol Llanbedr, mae'r adnewyddu'n hwyr yn dechrau. Cynigodd Cynghorydd Sir Ddinbych Huw Williams helpu i yrru'r prosiect yn ei flaen.

9. GWEFAN.
Y Cadeirydd a'r Clerc yw'r pwyntiau cyswllt ar y Wefan o hyn ymlaen.

10. ARWYDD LLANBEDR DC.
Cwblhawyd y gwaith gan Mr Simon Hughes ac mae'r bil wedi'i dalu. Mynegodd y Pwyllgor eu diolch i'r Cynghorydd Rhian Jones.

11. CWRS HYFFORDDIANT UN LLAIS CYMRU.
Diolch i waith caled y Cynghorydd Bob Barton a'r Clerc, mae'r cwrs Modiwl 1 yn mynd yn ei flaen ar 4 Ebrill yn ystafell gyfarfod Canolfan Genus. Cytunodd yr holl Aelodau i fynychu'r cwrs.

12. CYLLID.
A. Gwnaeth y Cyng Tim Baker y sylw nad oes gan y Cyngor Cymunedol unrhyw gynllun ffurfiol o'r hyn y mae am ei wneud gyda'i gronfeydd wrth gefn ar ôl cynnwys y costau gweithredol. Atgoffodd y Cyng Nick Smith y Pwyllgor mae'r tri phwnc allweddol a ddaeth i'r amlwg o gynllun / arolwg "Canolfan y Griffin" oedd: -
1. Datblygu "Canolfan Gymunedol" ar gyfer y pentref cyfan – sef Neuadd y Pentref erbyn hyn.
2. Darparu Grîn fel amwynder i'r Pentref.
3. Gwella llwybrau troed y Pentref..
Cytunwyd ar yr uchod gan y Pwyllgor, a byddent yn cael eu cyflwyno i'r cyfarfod Cyswllt Cymunedol cyntaf ar gyfer ymgynghoriad pellach.
B. Cyfrifon Banc:-
1. Cyfrif Cyfredol - £16,568.
2. Cyfrif Cadw - £9,336.37.
C. Derbynebau:-
1. Cyngor Tref Bae Colwyn – Ad-daliad Cwrs Hyfforddiant Un Llais Cymru - £40.00.
2. Cyfraniad y Cyngor i ddigwyddiad Cinio Dydd Gŵyl Dewi - £94.00.
3. Cyngor Cymuned Llanfair Dyffryn Clwyd – ffi pump o gynrychiolwyr ar Gwrs Hyfforddiant Un Llais Cymru - £200.00.
D. Taliadau awdurdodedig:-
1. Brenda Jones – cyfieithu cofnodion mis Mawrth 2019 - £58.00.
2. Gwaith gan Simon Hughes ar arwyddion y pentref - £220.00.
3. Gwaith ar yr Ardd Lechi gan Evergreen Gardening - £260.00.

13. SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU.
Rhoddodd y Clerc adroddiad llafar wedi'i ddiweddaru i'r Aelodau fod BDO o Southampton, sef Archwilwyr Allanol y Cyngor (a benodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru), wedi derbyn yr holl wybodaeth berthnasol am Gyfrifon Blynyddol y Cyngor ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 ers 14 Ionawr 2019. Gan nad yw BDO wedi llofnodi Ffurflen Flynyddol y Cyngor Cymuned am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018, hysbyswyd y Clerc gan Swyddfa Archwilio Cymru ar y ffôn ar 26 Chwefror 2019 y byddent hwy'n cadarnhau Cyfrifon Blynyddol y Cyngor Cymuned ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018.

14. YSGOL LLANBEDR.
Methu symud ymlaen â'u cais am nad yw'r Ysgol wedi ymateb i gais y Cyngor am fanylion sut y byddai'r arian yn cael ei wario. Cytunodd y Cyng Jackie Bird i gysylltu â'r Ysgol unwaith eto.

15. CEISIADAU CYNLLUNIO.
Dim.

16. HYSBYSIADAU PENDERFYNIAD CYNLLUNIO.
Dim.

17. GOHEBIAETH.
Mae gan Faer Rhuthun nifer cyfyngedig o docynnau ar gyfer Male Chorus y John's Boys ar nos Wener 12 Ebrill 2019 yn Theatr John Ambrose, Rhuthun am £10 y tocyn.

18. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.
Adroddodd y Cynghorydd Huw Williams ar y canlynol:-
A: Mae cefnffyrdd yr A494 a'r llwybrau troed drwy'r pentref wedi cael eu hysgubo.
B. Mae'r gwaith wedi dechrau ar lwybr troed Maes Derwen.
C. Mae angen tocio'r coed ar gefnffordd yr A494 .
D. Mae'r cyfyngiadau cyflymder heibio Ysgol Llanbedr hefyd ar y gweill.

19. MATERION BRYS DAN ADRAN 100B (4) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972.
A. Derbyniwyd cadarnhad gan Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych nad yw mater mynediad ymyl y briffordd ar y B5429 wrth fynedfa Neuadd Llanbedr yn rhan o'r seilwaith priffyrdd. Penderfynodd yr Aelodau i'r Clerc gysylltu â Swyddog "Hawliau Tramwy" Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn â'r gwaith atgyweirio sydd ei angen ar y safle.
B. Cynigodd y Cyng Lyn Evans gael digwyddiad "Pryd Nadolig i'r Henoed" fyddai'n cael ei noddi'n rhannol gan Bwyllgor Elusennau Llanbedr.
C. Cynigodd y Cyng Jackie Bird gael parti Nadolig ar gyfer teuluoedd ifanc. Penderfynodd yr Aelodau drafod hyn yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

20. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR - Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol - Dydd Mawrth 7fed Mai 2019 yn Neuadd y Pentref, Llanbedr Dyffryn Clwyd am 7.30 y.h.